LLYWODRAETHWYR CYMRU
Cynhadledd Ranbarthol Gogledd Cymru
Venue Cymru, Llandudno
23 Hydref, 2008

Daeth bron i 100 0 lywodraethwyr o Ogledd Cymru, Ceredigion a Phowys i Gynhadledd Ranbarthol Llywodraethwyr Cymru yn Llandudno 'Yr Ymchwil am Ragoriaeth'.

Cyflwynodd Hugh Pattrick MBE, Cadeirydd Llywodraethwyr Cymru, y tri siaradwr: John Griffiths AC, Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, Sheila Drury CBE, cydawdur Adolygiad Webb a Dr. Cheryl Morgan, Pennaeth Effeithlonrwydd Ysgolion ac AALl, APADGOS

Crynodeb o araith John Griffiths
Yr Agenda Sgiliau
Dechreuodd John Griffiths trwy fynegi gwerthfawrogiad Llywodraeth y Cynulliad o lywodraethwyr a'r gwaith hanfodol y maent yn ei wneud mewn gwelliant ysgolion ac arwain newid. "Mae ysgolion yn adnawdd pwerus ar gyfer newid…. Gan wneud y mwyaf o gyflawniad pob plentyn."
"Nid yw newid yn ddewisol. Nid yw newid o gwmpas yr ymylon yn dderbyniol."
Mae angen cydweithrediad rhwng ysgolion, AALl a Llywodraeth y Cynulliad i wneud y mwyaf o'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion newydd.
Mae rheoliadau wedi'u cyflwyno i'w gwneud yn haws i ysgolion gydweithio a gweithio'n fwy effeithiol ac effeithlon.
Bydd yr agenda Llwybrau Dysgu 14-19 oed yn rhoi dewis ehangach a 'theilwra pecynnau addysg' ar gyfer pobl ifanc. Nod y Mesur Dysgu a Sgiliau arfaethedig yw creu mwy o gysondeb a chyfle cyfartal i'r dysgwr.
Mae addysg ôl 16 oed yn cael ei gyflwyno gan nifer o ddarparwyr ac nid yw'r cynllunio bob amser yn gytun ac oherwydd hynny mae cyfleoedd dysgu yn gyfyngedig.
6ed dosbarth – mae'r holl dystiolaeth e.e. Estyn, yn awgrymu bod maint yn bwysig. Nid yw 6ed dosbarth bach o anghenraid yn darparu'r cyfleoedd a'r amgylchedd dysgu gorau.
Cyfeiriwyd at y cyhoeddiadau 'Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru' a 'Sgiliau sy'n gweithio ar gyfer Cymru' a phwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu a gwella sgiliau pobl ifanc, yn enwedig yn yr hinsawdd cyfredol.
Dyfynnu Leitch: "Nid yw'r hyn a gyflawnwyd yn y gorffennol yn feincnod ar gyfer y dyfodol,"
Pwyntiau terfynol:

- Gweithio gydag AALl a Llywodraeth y Cynulliad i wneud i newid ddigwydd
- Parhau gyda'r gwaith da
- Canolbwyntio ar ganlyniadau dysgwyr

Atebodd Mr Griffiths gwestiynau i esbonio safle APADGOS ar amrywiol bynciau.

Yn dilyn araith Mr Griffiths a chan barhau gyda'r thema o 'Sut i annog cyflogwyr i gyfranogi mwy mewn ysgolion' amlinellodd un o'r cynrychiolwyr o Magnox, noddwr y Gynhadledd, sut y maent yn gweithio gydag ysgolion a gwahoddodd y llywodraethwyr i gysylltu â nhw.

Crynodeb o araith Sheila Drury

Gwaith Llywodraethwyr

Gall gwaith llywodraethwyr fod yn drwm. Gall y data a'r wybodaeth a dderbyniant fod yn llethol. Defnyddiodd Sheila sleidiau i ddangos rôl llywodraethwyr a'r rhan bwysig y maent yn ei chwarae mewn gwella safonau a chanlyniadau.

Amlinellodd ganlyniadau PISA (Rhaglen Asesiad Myfyrwyr Rhyngwladol) o 2006 a nodi nad yw'n dderbyniol i Gymru fod yn 'gyffredin' ymysg y 57 gwlad OECD (Corff Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) ac i fod y tu ôl i wledydd eraill y DU mewn Darllen a Mathemateg

Dyfynnodd Sheila Leitch hefyd a dywedodd ei bod yn credu bod y syniad o Gymru yn methu â chystadlu gyda'r economïau datblygedig a'r rhai sydd yn datblygu yn un 'brawychus.

Mae cyllid yn bwnc sydd angen mynd i'r afael ag ef – mae 'cydraddoldeb a thegwch' yn ein system addysg yn dibynnu ar degwch a dyraniad a dosbarthiad cywir o gyllid. Yn seiliedig ar waith a wnaeth o'r blaen roedd wedi darganfod fod dosbarthiad cyllid rhwng AALl yn amrywiol.

Mae cydweithrediad a chydweithio rhwng ysgolion, rhwng ysgolion a cholegau Addysg Bellach ac eraill wedi'i lesteirio gan y mecanweithiau cyllido ac eto er mwyn i'n dysgwyr gael eu gwasanaethu orau mae rhaid darganfod ateb i hyn – rhaid i ddyfodol addysg yng Nghymru fod yn seiliedig ar gydweithio a chydweithredu. Hwn yw'r sialens i lywodraethwyr.

Crynodeb o araith Dr. Cheryl Morgan

Mae gwella canlyniadau i bob dysgwr yn parhau'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth y Cynulliad a'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion yw cerbyd y Llywodraeth ar gyfer datblygu'r ymrwymiad hwn. Mae'r *Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion: Adeiladu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd* yn golygu galluogi ysgolion i symud o fod yn 'dda i fod yn wych' yn ogystal â chynorthwyo'r rhai sydd angen cefnogaeth i gwrdd â'u pwrpas moesol o addysgu pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Datblygwyd y Fframwaith gan Lywodraeth y Cynulliad mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, o'r gwaith a gyflawnwyd yn dilyn canlyniadau PISA yn 2006. Roedd y canlyniadau hyn yn cadarnhau bod Cymru wedi gwneud cynnydd yn gyffredinol o ran cyflawniad plant a phobl ifanc ond eto mae gwahaniaethau mewn canlyniadau yn dal i fodoli. Pwrpas archfwaol y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion yw lleihau'r gwahaniaeth mewn canlyniadau a lles dysgwyr o fewn a rhwng ysgolion.

Amlinellodd Cheryl y gwaith Peilot Effeithlonrwydd Ysgolion sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar draws Cymru ac esboniodd sut y gallai gweithio ar 'Dair Lefel' gael ei weithredu orau ar raddfa genedlaethol. Mae tua 100 o ysgolion yn rhan o'r peilot, 25 ohonynt yng Ngogledd Cymru. Mae grŵp o Swyddogion Effeithlonrwydd Ysgolion wedi'u creu o benaethiaid a swyddogion gwelliant ysgolion AALl i gefnogi penaethiaid yr ysgolion sydd yn rhan o'r peilot Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion. Mae angen i lywodraethwyr adolygu eu Cynllun Datblygu Ysgol i weld sut y mae'n cyd-fynd gyda phump thema craidd y Fframwaith (meddwl systemau, dwyieithrwydd, diwylliant o berfformiad uchel, cydraddoldeb a chefnogi ac annibyniaeth) a'r chwech elfen (arweinyddiaeth, gweithio gydag eraill, rhwydweithiau o ymarfer proffesiynol, ymyrraeth a chefnogaeth, gwelliant ac atebolrwydd a chwricwlwm ac addysgu).

Cynhaliwyd pedwar sesiwn gweithdy un awr yn ystod y prynhawn a chafodd y llywodraethwyr gyfle i fynychu dwy ohonynt:

Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion	Cheryl Morgan, Anwen Williams, Sue Edgar a Peter Maddox
Estyn – rôl llywodraethwr	Mike Maguire, AEM
Cyfranogiad disgyblion	Jane Harries, Arweinydd Prosiect PP, Llywodraeth y Cynulliad
Ffurfio Corff Llywodraethu Ardderchog	Ray Wells, Swyddog Datblygu Llywodraethwyr Cymru

Mae sleidiau o'r diwrnod ar gael ar y wefan.

Noddwyd y gynhadledd gan Magnox Wylfa, Shotton Paper, Cadburys, Corus a Choleg Glannau Dyfrdwy.